# Nodiadau Canllaw Pecyn Cymorth Busnes Ynys Môn 2026

Mae hwn yn grant dewisol a ddarperir gan yr Hwb Menter / Enterprise Hub ar ran Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'r cyllid hwn a ddarperir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Gronfa Twf Lleol (LGF) i ddarparu cymorth ariannol ac anariannol i unigolion / fentrau sy'n dymuno datblygu eu busnes neu sefydlu menter newydd ar Ynys Môn. Os gwelwch yn dda sicrhewch eich bod yn darllen yr holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r cymorth ariannol sy'n cael ei gynnig.

**TROSOLWG**

- **Pecyn Cymorth Busnes Newydd**
  - Uchafswm cyfraniad grant o £2,00 (cyfanswm gwerth y gronfa £32,500)
  - Uchafswm grant o 70% o gyfraniad cost y prosiect
  - Isafswm cyfraniad ariannol cyfatebol o 30% sy'n ofynnol gan yr ymgeisydd
  - Cyllid i gyfrannu tuag at gostau cyfalaf yn unig
  - Sesiynau cyngor busnes 1to1 i gefnogi datblygiad busnes cyffredinol a chais am grant
  - Gweithdai addysgol a sesiynau rhwydweithio
  - Lleoliadau cydweithio
  - Cyfranogiad mewn cyfleoedd caffael a buddsoddi rhanbarthol lle bo'n berthnasol

- **Pecyn Cymorth Busnes Presennol**
  - Uchafswm cyfraniad grant o £10,000 (cyfanswm gwerth y gronfa £140,000)
  - Uchafswm grant o 50% o gyfraniad cost y prosiect
  - Isafswm cyfraniad ariannol cyfatebol o 50% sy'n ofynnol gan yr ymgeisydd
  - Cyllid i gyfrannu tuag at gostau cyfalaf yn unig
  - Sesiynau cyngor busnes 1to1 i gefnogi datblygiad busnes cyffredinol a chais am grant
  - Gweithdai addysgol a sesiynau rhwydweithio
  - Lleoliadau cydweithio
  - Cyfranogiad mewn cyfleoedd caffael a buddsoddi rhanbarthol lle bo'n berthnasol

**PWRPAS**

Mae cyllid ar gael tuag at wariant cyfalaf cymwys sy'n cyfrannu at y blaenoriaethau canlynol y Gronfa Twf Lleol (LGF):

| Blaenoriaeth | Amcan |
|---|---|
| 1. Busnesau mwy Cynhyrchiol a Chystadleuol | 1.1 Creu a thwf busnesau newydd, cwmniau deillio a mentrau cymdeithasol potensial uchel - gan gynnwys o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli |
| | 1.2 Cynyddu buddsoddiad cyfalaf mewn busnesau sydd a photensial o dwf uchel i gefnogi twf cynhyrchiant |

Pwrpas y gronfa yma yw i gefnogi unigolion a busnesau ar Ynys Môn i:

- Gychwyn
- Tyfu a datblygu
- Gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant
- Cryfhau hyfywedd, gwydnwch a chynaliadwyedd hirdymor
- Cefnogi arloesedd a datblygiad
- Mabwysiadu technolegau digidol
- Gweithredu gwelliannau amgylcheddol
- Creu cyfleoedd cyflogaeth
- Gwella sgiliau'r gweithlu
- Gwella'r defnydd o'r Gymraeg
- Galluogi mynediad at farchnadoedd newydd

Ni all y gronfa gefnogi costau rhedeg bob dydd, cynnal a chadw, atgyweirio neu gostau busnes fel arfer.

Mae cyllid ar gael tuag at wariant cyfalaf cymwys sy'n cyfrannu at Flaenoriaethau'r Gronfa Twf Lleol, a fesurir gan ddefnyddio'r Allbynnau a'r Canlyniadau canlynol. Yn y Ffurflen Mynegi Diddordeb a'r Ffurflen Gais, bydd angen i chi ddewis yr Allbynnau a'r Canlyniadau rydych yn rhagweld y byddwch yn eu cyflawni o ganlyniad i dderbyn y cyllid yn llwyddiannus. Bydd angen i chi hefyd ddarparu tystiolaeth bod yr Allbynnau a'r Canlyniadau hyn wedi'u cyflawni.

| Allbynnau a Canlyniadau | Uned | Diffiniad | Tystiolaeth |
|---|---|---|---|
| OP02: Nifer y mentrau sy'n ymwneud â marchnadoedd newydd | Uned Gynradd: Nifer y mentrau<br><br>Unedau Eilaidd: Nifer y mentrau mewn sectorau â blaenoriaeth | Mentrau sy'n ymwneud â marchnad nad yw'r busnes wedi ymgysylltu â hi o'r blaen, gan gynnwys marchnadoedd rhanbarthol yng Nghymru, marchnadoedd ledled Cymru neu'r DU, neu farchnadoedd rhyngwladol. Mae ymgysylltu yn golygu eu bod wedi lansio cynnyrch neu wasanaeth i farchnad ddomestig neu dramor newydd (gan gynnwys trwy bresenoldeb ar-lein) neu wedi ymgymryd ag ymchwil neu wedi mynychu cynadleddau neu ddigwyddiadau i baratoi lansiad i farchnad newydd.<br><br>Diffinnir menter fel unig fasnachwr, microfusnes, menter fach a chanolig, neu fusnes mawr. Mae hefyd yn cynnwys mentrau cymdeithasol lle mae'r rhain yn cymryd rhan mewn gweithgarwch economaidd, yn ogystal â busnesau newydd (busnesau sydd â llai na neu | A a B:<br><br>A. Enw'r fenter<br><br>B. Tystiolaeth o ymgysylltu mewn marchnad newydd (er enghraifft marchnata, ymchwil, mynychu cynadleddau) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gyfwerth â dwy flynedd o fasnachu) neu gwmni deillio (cwmni newydd a grëwyd o sefydliad presennol - yn fwyaf cyffredin prifysgol - i fasnacheiddio ymchwil, technoleg, neu arbenigedd fel busnes ar wahân.) | |
| OP05: Nifer y busnesau sy'n cael grantiau | Uned Gynradd: Nifer y mentrau<br><br>Unedau Eilaidd: Nifer y mentrau mewn sectorau â blaenoriaeth | Mentrau (fel y'u diffinnir yn OP02) sy'n derbyn grant, a ddiffinnir fel taliad arian parod nad yw'n cael ei ad-dalu. | A a B<br><br>A. Enw'r Fenter<br><br>B. Llythyr dyfarnu grant wedi'i lofnodi |
| OP09: Nifer y mentrau sy'n mabwysiadu technolegau neu brosesau newydd | Uned Gynradd: Nifer y mentrau<br><br>Unedau Eilaidd: Nifer y mentrau mewn sectorau â blaenoriaeth | Mentrau (fel y'u diffinnir yn OP02) sydd wedi mabwysiadu dulliau cynhyrchu neu gyflenwi newydd neu wedi'u gwella'n sylweddol. Gall hyn gynnwys cynnwys newidiadau sylweddol mewn technegau, offer neu feddalwedd, gan gynnwys er enghraifft drwy ddefnyddio technolegau neu atebion digidol newydd neu arloesol, neu fabwysiadu cynhyrchion neu wasanaethau newydd o fewn prosesau eu busnesau.<br><br>Wedi'u heithrio o'r diffiniad hwn mae mân newidiadau neu welliannau, cynnydd mewn galluoedd cynhyrchu neu wasanaeth trwy ychwanegu systemau gweithgynhyrchu neu logistaidd sy'n debyg iawn i'r rhai sydd eisoes yn cael eu defnyddio, peidio â defnyddio proses, amnewid cyfalaf syml neu estyniad, newidiadau sy'n deillio o newidiadau mewn prisiau ffactor, addasu, lleoleiddio, newidiadau rheolaidd, tymhorol a newidiadau cylchol eraill a masnachu cynhyrchion newydd neu wedi'u gwella'n sylweddol.<br><br>Rhaid mabwysiadu cynhyrchion neu wasanaethau newydd fod o ganlyniad i gymorth LGF, er enghraifft, trwy ariannu offer newydd neu o ganlyniad i gyngor ac | A, B ac C:<br><br>A. Enw'r fenter<br><br>B. Manylion y dechnoleg neu'r prosesau newydd<br><br>C. Tystiolaeth o dechnolegau neu brosesau sy'n newydd i'r cwmni |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | arweiniad a dderbyniwyd trwy brosiectau a ariennir gan LGF. | |
| OC01: Swyddi newydd a grëwyd o ganlyniad i gymorth | Uned Gynradd: Nifer y swyddi<br><br>Unedau Eilaidd: Nifer y swyddi mewn sectorau blaenoriaeth<br><br>Nifer y swyddi mewn ardaloedd sydd â chrynodiad uchel o amddifadedd<br><br>Nifer y swyddi a grëwyd mewn trothwyon cyflog isel ac uchel | Swydd newydd nad oedd yn bodoli o fewn y fenter honno cyn yr ymyrraeth, y disgwylir iddi fodoli am o leiaf 12 mis o ganlyniad i gefnogaeth. Mae hyn yn cynnwys swyddi rhan-amser, amser llawn a hunangyflogedig. Dylid cofnodi swyddi rhan-amser mewn perthynas â chyfwerth ag amser llawn (FTE), er enghraifft adrodd 0.5 ar gyfer swydd ar hanner yr oriau amser llawn safonol. Dylai FTE fod yn seiliedig ar oriau llawn amser safonol y cyflogwr. Mae swyddi a grëwyd yn eithrio'r rhai a grëwyd dim ond i gyflawni'r ymyrraeth (e.e. adeiladu). | A a C:<br><br>A. Enw'r Fenter<br><br>C. Tystiolaeth cyflogres, Disgrifiad Swydd. |
| OC02: Nifer y mentrau newydd a grëwyd o ganlyniad i gymorth | Uned Gynradd: Nifer y mentrau<br><br>Unedau Eilaidd: Nifer y mentrau mewn sectorau â blaenoriaeth | Mae menter newydd (fel y'i diffinnir yn OP02) a grëwyd yn un sydd wedi'i chofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau neu CThEM o ganlyniad i'r cymorth a ddarperir. | A a B:<br><br>A. Enw'r fenter a grëwyd<br><br>B. Cofrestru cwmni neu dystiolaeth CThEM i ddangos creu busnes |

Yn ogystal â chymorth ariannol, bydd pob ymgeisydd yn gallu cael mynediad i sesiynau cyngor 1i1, cyfleoedd rhwydweithio, yn ogystal â gweithdai gwybodaeth sy'n cwmpasu ystod eang o sgiliau allweddol sydd eu hangen i lwyddo mewn busnes.  Bydd y pynciau a drafodir yn cynnwys elfennau fel cynllunio busnes, rhagolygon ariannol, cyfreithlondeb bod mewn busnes, hunanasesiad ar-lein, brandio, marchnata ac ati.

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr nad ydynt wedi derbyn cymorth ariannol o'r blaen/yn ddiweddar.

**MEINI PRAWF**

- Busnes meicro, bach neu ganolig sydd â'i bencadlys ar Ynys Môn. Eich pencadlys yw'r eiddo lle mae rhan helaeth o'ch gweithgaredd busnes yn digwydd
- Busnesau masnachol (nid elusennau neu grwpiau cymunedol)
- Cyflogi hyd at 250 o bobl
- Trosiant yn llai na £44 miliwn neu fantolen yn llai na £38 miliwn
- Busnesau sefydledig neu unigolion sy'n bwriadu dechrau menter newydd cyn diwedd mis Mawrth 2027.

- Dros 16 oed
- Dim ond un cais fydd yn cael ei dderbyn gan bob busnes/unigolyn
- Byddai'r prosiect yn cael ei ohirio, ei leihau mewn cwmpas neu ddim yn gallu bwrw ymlaen os na ddarperir cymorth ariannol.
- Rhaid i bob prosiect gael ei gwblhau a'i hawlio cyn diwedd mis Mawrth 2027.

Croesewir ceisiadau gan unigolion / busnesau o unrhyw sector, fodd bynnag, rhoddir blaenoriaeth i fusnesau twf uchel posibl o fewn y sectorau blaenoriaeth canlynol a nodwyd gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru:

- Gweithgynhyrchu Uwch
- Adeiladu
- Creadigol a Digidol
- Ynni a'r Amgylchedd
- Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol
- Bwyd
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Twristiaeth a Lletygarwch

**GWARIANT CYMWYS**

Diffinnir costau cyfalaf fel costau treuliau i gaffael neu adeiladu asedau sylweddol, hirhoedlog, megis adeiladau neu offer, a fydd yn cael eu defnyddio am fwy na blwyddyn. Mae'r rhain yn fuddsoddiadau un-amser, yn wahanol i dreuliau gweithredu cylchol.  Enghreifftiau o wariant cymwys (isafswm cost eitem unigol o £100):

- Peiriannau ac offer
- Digideiddio ac awtomeiddio
- Gwelliannau i brosesau
- Technolegau newydd
- Meddalwedd arbenigol
- Datblygu cynnyrch newydd
- Mesurau effeithlonrwydd ynni ac adnoddau

Ni all y gronfa gefnogi'r canlynol:

- Prosiectau sy'n bodoli eisoes
- Ymchwil pur (bydd angen i'r prosiectau fod yn rhai ymarferol)
- Ni fydd eitemau a brynir drwy brydlesu, prynu llogi, prydlesi cyllid/trefniadau credyd estynedig yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid grant

- Ni fydd unrhyw grant yn cael ei gynnig na'i dalu os yw'r busnes neu'r ymgeisydd mewn ôl-ddyledion ynghylch unrhyw daliad i unrhyw un o'r awdurdodau lleol sy'n ymwneud â'r prosiect
- Prynu eiddo domestig a/neu dir
- Llety Preswyl/Domestig
- Offer neu wasanaethau y mae angen eu prynu er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Statudol
- TAW y gellir ei adennill
- Cerbydau
- Mae eitemau a brynir gyda chardiau credyd yn gymwys, ond bydd angen i'r ymgeisydd ddangos bod y swm a dalwyd gan y cerdyn sy'n gysylltiedig â'r eitem(au) yn y cais am grant wedi'i dalu'n llawn cyn hawlio'r grant
- Prynu stoc
- Gwariant refeniw

Sylwer, nid yw'r uchod yn rhestr gynhwysfawr, efallai y bydd eitemau gwariant eraill yn cael eu hystyried. Mae ceisiadau'n cael eu gwerthuso fesul achos. Sicrhewch eich diwydrwydd dyladwy eich hun wrth ddewis cyflenwyr. Er mwyn cefnogi'r gadwyn gyflenwi leol, rhoddir blaenoriaeth i geisiadau sy'n defnyddio cyflenwyr lleol.

Bydd disgwyl i brosiectau ddilyn canllawiau caffael y sector cyhoeddus. Mae angen 1 dyfynbris gyda gwariant hyd at £10,000 (gan gynnwys TAW) a 3 dyfynbris gyda gwariant uwch na £10,001 (gan gynnwys TAW). Mae angen tendr agored ar gyfer eitemau sydd werth dros £100,000 (gan gynnwys TAW).

Ni chaniateir gwaith a wneir gan yr ymgeisydd ei hun neu unigolyn a gyflogir yn uniongyrchol gan yr ymgeisydd ac ni fydd yn gymwys i gael cyllid. Mae rhaid i'r Hwb Menter gael gwybod am unrhyw gysylltiad personol, teuluol neu fusnes rhyngoch chi / eich busnes neu unrhyw gyflenwr neu gontractwr.

**PROSES YMGEISIO**

Oherwydd gwerth cyffredinol cymharol fach y gronfa, y cam cyntaf yw cwblhau Ffurflen Mynegi Diddordeb gyda cymorth gan Ymgynghorwr Busnes, i sicrhau cymhwysedd ac addasrwydd cyn cyflwyno cais llawn. Os yw'n gymwys ac yn addas, bydd y ffurflen gais wedyn yn cael ei hanfon atoch i'w chwblhau. Rydym yn disgwyl galw mawr am y grant hwn ac yn anffodus, dim ond cyfran o'r ceisiadau a dderbyniwn y byddwn yn gallu eu cefnogi.

- Lansio Grant = 28ain o Fedi 2026
- Sesiynnau Galw Heibio = 5ed – 9fed o Hydref 2026
- Dyddiad cau Mynegi Diddordeb = 16eg o Hydref 2026
- Ymateb i Fynegi Diddordeb = 26ain o Hydref 2026
- Dyddiad cau ceisiadau llawn = 27ain o Dachwedd 2026
- Hysbysiad o gais llwyddiannus/aflwyddiannus = 10fed o Ragfyr 2026
- Dyddiad cau ar gyfer gwariant = 12fed o Fawrth 2027

Gwnewch yn siŵr nad ydych yn gofyn am nwyddau neu wasanaethau na ellir eu harchebu, eu derbyn a'u talu o fewn yr amserlen a nodwyd. Bydd gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o gyflawnadwyedd.

Darllenwch yr holl ddogfennau cyn gwneud cais. Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu trwy banel ar ôl y dyddiad cau. Bydd gofyn i ymgeiswyr nodi pa Allbynnau a Chanlyniadau y mae'r prosiect yn anelu at eu cyflawni a darparu nifer targed ar gyfer pob un: a bydd yn ofynnol iddynt gasglu a darparu'r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer pob un.

**Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus (busnes presennol a busnes newydd) gwblhau'r holl wariant a hawliadau cysylltiedig erbyn 12fed o Fawrth 2027 fan bellaf. Dylai busnesau newydd ymdrechu i ddechrau'r busnes cyn gynted â phosibl, cyn mis diwedd Mawrth 2027 fan bellaf. Efallai y bydd angen cwblhau/cyflwyno gwariant a thystiolaeth ategol cyn y dyddiadau hyn, bydd manylion yn cael eu cynnwys ar y llythyr cadarnhau cais llwyddiannus.** Gallai methu â gwneud hynny arwain at yr Hwb Menter / Hwb Enterprise a/neu ei gontractwyr penodedig yn adennill yr arian.

Rydym wedi ymdrechu i symleiddio'r ffurflen gais gymaint â phosibl i arbed dyblygu gwybodaeth a gynhwysir yn ein dogfen gofrestru prosiect a'ch cynllun busnes. Fodd bynnag, at ddibenion diwydrwydd dyladwy byddwn angen:

- Gwybodaeth amdanoch chi 'yr ymgeisydd'. Gwnewch yn siŵr bod yr holl wybodaeth yn gywir.
- Faint o gyllid rydych chi'n gwneud cais amdano a dadansoddiad o sut rydych chi'n bwriadu defnyddio'r cyllid.
- Dogfennau ategol fel dyfynbrisiau, datganiadau banc, prawf o ID, cynllun busnes, anfonebau ac ati.
- Manylion banc er mwyn prosesu taliadau lle bo angen. Gwnewch yn siŵr bod manylion banc cywir yn cael eu darparu. Bydd manylion banc anghywir yn arwain at beidio â thalu'r grant neu bydd y taliad yn cael ei ohirio.
- Cofnod o unrhyw gyllid arall a dderbyniwyd sy'n cyfrannu at eich lwfans cymorthdaliadau MFA o £315,000 neu fathau tebyg o gymorthdaliadau (gweler adran 42(8) o'r Ddeddf Rheoli Cymhorthdaliadau) dros gyfnod ariannol tair blynedd. Mae Hwb Menter / Hwb Enterprise yn cynnig cymhorthdal Isafswm Cymorth Ariannol (MFA) o dan y Ddeddf Rheoli Cymhorthdal (2022). Mae'r trothwy ariannol MFA yn berthnasol ar lefel grŵp cwmni. Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach yma.
- Llofnodion i ddatgan eich dealltwriaeth a'ch derbyniad o'r grant.

Rhestr wirio lawn o'r dogfennau gofynnol i gefnogi eich cais llawn:

| | **Busnes Newydd** | **Busnes Cyfredol** |
|---|---|---|
| Prawf o ID | √ | √ |
| Prawf Cyfeiriad (Datganiad Banc) | √ | √ |
| Ffurflen Gais wedi'i Chwblhau | √ | √ |
| Cynllun Busnes | √ | √ |
| Cyfrifon Dwy Flynedd (cyfrifon rheoli os yw ar gael) | X | √ |
| Rhagolwg Ariannol Blwyddyn (llif arian) | √ | X |
| Caniatâd statudol gan gynnwys caniatâd cynllunio, rheoliadau adeiladu (os yw'n berthnasol) | √ | √ |
| Cytundeb Prydles (os yw'n berthnasol) | √ | √ |
| Prawf o gyllid gyfatebol | √ | √ |
| Dyfynbrisiau | √ | √ |

Mewn achosion lle nad yw cyfrif banc busnes wedi'i agor eto, gellir derbyn datganiad banc personol nes bod trefniadau bancio busnes addas ar waith.

Bydd gofyn i ymgeiswyr hefyd gofrestru ar gyfer yr Addewid Twf Gwyrdd ac Addewid Cydraddoldeb drwy Busnes Cymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cyn gwneud cais neu os oes gennych unrhyw bryderon efallai na fyddwch yn gallu cymryd rhan yn y broses yn llawn am resymau meddygol/technegol/gofalol, cysylltwch â Hwb Menter / Menter Hwb i drafod cymorth ychwanegol posibl.

Mae dyfarniadau grant yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy ac argaeledd cyllideb. Mae diwydrwydd dyladwy yn cynnwys gwneud asesiad ar yr angen am gyllid cyhoeddus; hyfywedd y busnes yn y dyfodol; gallu'r ymgeisydd i gyflawni'r prosiect; effaith y datblygiad ar yr economi, ystyriaethau rheoli cymhorthdal a chryfder yr achos busnes a gyflwynwyd.

Byddwn yn eich hysbysu o'r penderfyniad trwy e-bost. Os byddwch yn llwyddiannus, byddwn yn rhoi gwybod i chi faint o gyllid yr ydym yn ei gynnig i chi ac unrhyw amodau penodol sy'n gysylltiedig â'r grant. Nid yw gwneud cais i'r cynllun yn gwarantu y bydd eich cais yn llwyddiannus. Os nad ydych yn llwyddiannus yn eich cais neu dim ond yn rhannol lwyddiannus e.e. os ydych chi'n cael cyllid o swm llai nag y gwnaethoch wneud cais amdano, byddwn yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi pam eich bod wedi bod yn aflwyddiannus a'ch cyfeirio at ffynonellau cyllid posibl eraill.

Nid oes proses apelio. Nid ydym yn gallu ystyried cwyn sy'n ymwneud ag anfodlonrwydd ynghylch canlyniad penderfyniad cyllido. Fodd bynnag, os ydych wedi nodi methiant proses benodol sy'n ymwneud â'ch cais, efallai yr hoffech wneud cwyn ffurfiol. Cysylltwch â ni ar 01248 858 070 / post@hwbmenter.cymru.

**AD-DALIAD GRANT**

Ni fydd unrhyw wariant cyn derbyn y llythyr cynnig grant yn cael ei ystyried. Ar ôl i'r llythyr cynnig grant gael ei dderbyn, gall gwariant ddechrau. Rhaid i'r ymgeisydd ymgymryd â'r holl wariant o flaen llaw ac yna gwneud hawliad i Hwb Menter / Enterprise Hub i hawlio'r % o gyllid grant. Bydd angen prawf ar ffurf anfonebau a datganiadau banc ac ati ar gyfer yr holl wariant. Ni ellir prynu eitemau gydag arian parod. Os ydych chi'n talu trwy gerdyn credyd, rhaid talu'r balans llawn a derbyn prawf cyn y gellir gwneud hawliad. Gellir hawlio'r TAW fel rhan o gyfanswm y grant os nad yw'r ymgeisydd wedi cofrestru at ddibenion TAW.

Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu tystiolaeth bod yr Allbynnau a'r Canlyniadau targed a nodir ar y ffurflen gais wedi'u cyflawni. Diffinnir busnes newydd fel busnes nad yw wedi'i gofrestru'n ffurfiol gyda CThEM neu Dŷ'r Cwmnïau eto ar adeg cyflwyno'r cais a bydd yn ofynnol iddo/iddi wneud hynny ar ôl cais llwyddiannus i ddarparu tystiolaeth bod y cwmni wedi dechrau masnachu. Bydd gofyn i ymgeiswyr hefyd gymryd rhan mewn gweithgareddau monitro, gwerthuso a hyrwyddo.

Bydd yr Hwb Menter yn bodloni ei hun bod y gweithgaredd y dyfernwyd y cyllid ar ei gyfer (gwaith a wnaed neu bryniannau a wnaed) wedi'i gyflawni'n llawn yn unol â'r cynnig a wnaed yn y cais ac unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y gymeradwyaeth. Gall hyn fod trwy arolygiad neu unrhyw ddulliau eraill fel y mae'r Hwb Menter yn penderfynu. Pan fydd yr uchod i gyd wedi'i gwblhau, bydd yr Hwb Menter yn rhyddhau'r cyllid i'ch Cyfrif Banc Busnes trwy daliad BACS a all gymryd hyd at 20 diwrnod gwaith.

Dylai ymgeiswyr nodi y gall yr Hwb Menter ofyn am ad-dalu'r pecyn cymorth yn llawn neu'n rhannol os nad yw'r arian yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a nodir ar y ffurflen gais neu os nad yw'r telerau ac amodau'n cael eu bodloni. Mae'r ymgeisydd yn ymrwymo i gytundeb fel y cyfryw a gellir gorfodi hyn trwy ofyn am dyfarniad prawf ar ôl grant.

Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus gydnabod cefnogaeth y Gronfa Twf Lleol yn unol â chanllawiau brandio Llywodraeth Cymru a'r rhaglen.

**THE HWB MENTER / ENTERPRISE HUB**

Mae'r Hwb Menter, prosiect Menter Môn, sydd wedi'i leoli yn M-SParc, Gaerwen a Hwb Arloesi, Porthmadog, yn darparu'r wybodaeth, yr arweiniad, yr ysbrydoliaeth a'r lle i entrepreneuriaid drawsnewid eu syniad yn fusnes llwyddiannus. Mae'r gwasanaethau a gynigir yn cynnwys:

- Mannau swyddfa cydweithio
- Cymuned o unigolion o'r un anian i rannu syniadau a chynnig anogaeth,
- Cyngor busnes 1to1
- Ystod o ddigwyddiadau addysgol/cymdeithasol
- Gofodau Creu Ffiws
- Rhaglen cychwyn busnes Miwtini

Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau ar gael ar www.hwbmenter.cymru. Bydd gan ymgeiswyr hefyd fynediad at yr ystod lawn o bortffolio eang Menter Môn o brosiectau, yn amrywio o Ynni Llanw Morlais i Fenter Iaith i Drefi SMART. Mae rhagor o wybodaeth am brosiectau cyfredol Menter Môn ar gael ar www.mentermon.com.

Ariennir Hwb Menter / Enterprise Hub gan lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU drwy Gyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn.